CYNGOR SIR CEREDIGION

GWASANAETH YSGOLION

CORFF LLYWODRAETHU YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL TAL-Y-BONT

4.00 - 5.40 PM, 09 MEHEFIN 2022

Yn bresennol (Hybrid)	Bethan Davies, (Cadeirydd), y Cynghorydd Catrin Davies, Cathryn Lloyd-Williams, Helen Ovens, Trish Huws, Llio Rhys, Rhian Nelmes, Siwan Evans, Hefin Jones (Pennaeth).
Clerc:	Pauline Lucas (Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr)

Cofnod Trafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredir gan*:
1	**YMDDIHEURIADAU:**		
	Cyflwynwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Rhian Evans. **PENDERFYNWYD** derbyn yr ymddiheuriad.		
2i	**DATGAN BUDDIANT / CYFRINACHEDD:** Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau:		
	a)	o'r angen i ddatgan eu buddiant mewn unrhyw eitem ar yr agenda neu dan drafodaeth yng nghyfarfod y Corff Llywodraethu a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddynt adael y cyfarfod;	
	b)	y byddai pob buddiant sy'n cael ei ddatgan yn cael ei gofnodi;	
	c)	bod yr eitemau a drafodir yn y cyfarfodydd yn gyfrinachol ac na ddylid eu trafod yn gyhoeddus.	
	PENDERFYNWYD nodi'r uchod.		
2ii	**COFNODION:**		
	Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2022 ac eithrio diwygio Shauna i ddarllen Sionna a byddent yn cael eu llofnodi'n ddiweddarach oherwydd cyfyngiadau Covid-19.		
2iii	**PWYLLGORAU:**		
	PENDERFYNWYD nodi bod y Pwyllgor Staffio wedi cyfarfod i benodi Athro/athrawes yn lle Buddug. Mae penodiad wedi'i wneud, i ddechrau ym mis Medi a bydd rhieni'n cael gwybod, unwaith y bydd y gwaith papur wedi'i gwblhau.		
2iv	**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD I RIENI 2021-2022:**		

Cofnod Trafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredir gan*:
	Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd 'yn ofynnol o hyd i Lywodraethwyr Ysgol gynhyrchu adroddiad blynyddol, ond bydd y rheoliadau'n cael eu haddasu i sail 'ymdrechion rhesymol'. Ni fydd y gofynion i roi adroddiad am berfformiad, absenoldeb, a thargedau'r ysgol yn yr adroddiad blynyddol, yn berthnasol mwyach'. Byddai'r Pennaeth a'r Cadeirydd yn cynhyrchu adroddiad.		Pennaeth/ Cadeirydd
3i	**ADRODDIAD Y PENNAETH:**		
	Trefnwyd o'r blaen fod copi o adroddiad y Pennaeth ar gael i'r Aelodau. Cafwyd trafodaeth ar y canlynol:		
	a)	Cafwyd llythyr oddi wrth Vicky ynglŷn â'i horiau gweithio. Roedd ei gwaith gyda'r Cylch Meithrin yn bwysig i ddyfodol yr Ysgol. Llongyfarchwyd y Cylch ar eu gwaith.	
	b)	Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod yr Heddlu wedi cael eu galw i'r Ysgol gan y Gofalwr ar ôl oriau Ysgol. Roedd y mater wedi'i ddatrys a pheth difrod wedi'i wneud.	
	c)	Cynhaliwyd cyfarfod gyda Swyddog Cyllid yr Awdurdod Lleol. Roedd y sefyllfa'n gadarnhaol, gyda llawer o grantiau'n yn dod i law. Byddai gwarged a ragwelwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Roedd 18 o ddisgyblion ym mlwyddyn 5 ar hyn o bryd a fyddai'n cael effaith ar y cyllid pan fyddant yn symud ymlaen i'r Ysgol Uwchradd. Diolchwyd i'r Awdurdod Lleol am gytuno i dalu am y gwaith i'r ffens a'r lloriau yn yr Ysgol.	
	d)	Mynegodd Aelod bryder, a ddygwyd i'w sylw ynghylch goleuadau'n cael eu cadw ymlaen drwy gydol y nos ac yn ystod gwyliau'r Ysgol. Roedd yn wastraff ynni ac nid oedd yn edrych yn dda. Byddai'r Pennaeth yn cysylltu â Gwasanaethau Glanhau'r Awdurdod Lleol i drafod y mater.	Pennaeth
	e)	Roedd y disgyblion wedi ymgartrefu'n dda ac yn cael eu cadw'n brysur. Diolchwyd i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu cyfraniadau ariannol. Cytunwyd i ganiatáu i'r Pennaeth dynnu arian allan o'r cyfrif Preifat i helpu i ariannu gweithgareddau, pe byddai angen.	
	f)	Er nad oedd yn ofynnol rhoi adroddiad am bresenoldeb, roedd y Pennaeth yn pryderu bod rhai teuluoedd yn dangos arferion gwael.	
	g)	Mae paratoadau ar gyfer y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd yn parhau, mae disgyblion wedi cael eu sgrinio a bydd 4 yn trosglwyddo ac yn cael Cynlluniau Datblygu Unigol o fis Medi. Dilynwyd y Canllawiau a Siart Lif yn agos a hysbyswyd y Rhieni yn ysgrifenedig. Bydd Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd yn ei le erbyn mis Medi.	

Cofnod Trafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredir gan*:
		Bydd Trish Huws yn ymweld â'r Ysgol yr wythnos nesaf i drafod Anghenion Dysgu Ychwanegol ac yn adrodd yn ôl i'r Corff Llywodraethu Llawn.	Trish
	h)	Mae Profion Cenedlaethol wedi eu cynnal dros gyfnod o 3 wythnos, ar-lein ac maent wedi bod yn her i Staff a Disgyblion. Roedd y staff wedi mynegi pryder ynghylch y profion ac nid oeddent yn gweld dim budd iddynt. Roedd yr adroddiadau a luniwyd yn gyffredinol ac nid yn benodol i Ddisgyblion. Roedd y Pennaeth wedi codi'r pryderon gydag Ymgynghorydd Cefnogi'r Ysgol. Roedd rhai Ysgolion wedi'u gweld yn ddefnyddiol i feincnodi yn eu herbyn. Mae'r mater wedi'i godi o'r blaen gyda Llywodraeth Cymru ac mae rhai newidiadau wedi'u gwneud. Mae'r llywodraethwyr yn hapus i gefnogi'r staff os oes angen uwchgyfeirio pethau.	
	i)	Mae trafodaethau wedi eu cynnal i wneud defnydd o ran o dir cyfagos i'r Ysgol. Byddai'r tir yn cael ei drawsnewid yn Ysgol Goedwig. Byddai cytundeb cyfreithiol yn cael ei lunio. Mae disgyblion wedi dechrau gwneud cynlluniau.	
	j)	Roedd angen paentio'r marciau ar yr iard ac mae angen cwblhau'r gwaith y tymor hwn yn unol â thelerau'r grant. Bydd Helen yn cyfarfod â'r Pennaeth i drafod ymhellach.	Helen/ Pennaeth
	k)	Mae paratoadau yn parhau ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Cyflwynir crynodeb i'r aelodau cyn diwedd y tymor.	
	l)	Mae trafodaethau ynghylch traffig y tu allan i'r Ysgol yn parhau, darllenwyd llythyr oddi wrth Lee Walters i'r Aelodau. Byddai'r Cynghorydd Catrin Davies yn gwneud ymholiadau pellach ynglŷn â Hebryngwr Croesfan Ysgol. Byddai ateb i'r llythyr yn cael ei ddrafftio ac anogir sefydliadau eraill o fewn y pentref i ymateb hefyd.	Catrin Cadeirydd
3ii	**DIFFINIO YSGOLION YN UNOL Â DARPARIAETH IAITH:**		
	PENDERFYNWYD mai 3 fyddai categori'r Ysgol a rhoddir y wybodaeth ym mhrosbectws yr Ysgol ac ar wefan yr Ysgol.		
3iii	**PARTNERIAETH:**		
	Nodwyd bod pob Aelod o Staff wedi cael maes cyfrifoldeb o fewn y Cwricwlwm newydd i Gymru.		
4	**HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR:**		
	PENDERFYNWYD nodi y byddai Fforwm tymhorol y Llywodraethwyr yn cael ei gynnal ar 6 Gorffennaf trwy Zoom am 6.30pm.		

Cofnod Trafodaeth y Corff Llywodraethu:		Gweithredir gan*:
5i	**POLISÏAU, POLISÏAU ANSTATUDOL:**	
	PENDERFYNWYD nodi bod y Polisïau Anstatudol a ganlyn ar gael yn yr Ysgol. Byddai rhai yn cael eu hadolygu yn unol â'r Cwricwlwm newydd. Polisi Recriwtio Diogel/y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Polisi Urddas yn y Gweithle Polisi Ymweliadau Addysgol 2018 Polisi Anghenion Gofal Iechyd Polisi Tywydd Garw/Amharu ar y Gwasanaeth Polisi Caniatâd i fod yn Absennol Polisi Plant sy'n Derbyn Gofal Polisi Rheoli Newid Sefydliadol mewn Ysgolion Polisi Rheoli Eiddo Polisi Atal Eithafiaeth Canllawiau Trawsryweddol yr Ysgol Polisi Toiledau'r Ysgol Polisi Rheoli Absenoldeb oherwydd Salwch Polisi Cyfryngau Cymdeithasol ac E-Ddiogelwch Polisi Rheoli Pwysau Polisi Camddefnyddio Sylweddau Datblygu Cynaliadwy Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Polisi Chwythu'r Chwiban Polisi Bwyd a Ffitrwydd yr Ysgol Gyfan	
5ii	**Polisi Enghreifftiol Cyflogau Athrawon**	
	PENDERFYNWYD nodi nad oedd gwybodaeth benodol i'r ysgol wedi'i chwblhau, felly mabwysiadwyd y polisi mewn egwyddor hyd nes y bydd wedi'i chwblhau gan y Pennaeth.	Pennaeth
6	**GOHEBIAETH / MATERION PERSONOL:**	
	Croesawyd y Cynghorydd Catrin Davies i'w chyfarfod llawn cyntaf o'r Corff Llywodraethu fel yr aelod lleol newydd ei ethol; Cydymdeimlwyd â Siwan ar golli ei Thad yn ddiweddar; Llongyfarchwyd Cathryn am ei rhan yn yr hysbyseb recriwtio Athrawon newydd.	

Cofnod Trafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredir gan*:
7	**UNRHYW FATER ARALL A GYFLWYNWYD YMLAEN LLAW:**		
	a)	Gofynnwyd i'r Ysgol addurno'r Ysgol yn barod ar gyfer yr Eisteddfod ym mis Awst. Byddai gweithdy yn cael ei gynnal yn y Neuadd i greu baneri. Gofynnwyd i ddisgyblion ganu yn y Côr. Roedd yr Ysgol wedi cynhyrchu tudalen i'w rhoi mewn comic a fyddai'n cael ei werthu yn yr Eisteddfod.	
	b)	Roedd Rhian wedi bod i'r Ysgol i fonitro darllen ar draws yr Ysgol. Roedd y disgyblion yn hyderus ac yn falch o ddarllen. Nododd fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapusach ac yn fwy hyderus yn darllen yn Saesneg. Nododd y disgyblion nad oeddent bob amser yn deall y geiriau Cymraeg a'u bod wedi dod o hyd i dewis gwell o lyfrau Saesneg. Byddai'r mater yn cael ei roi fel blaenoriaeth yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol. Gofynnodd aelod beth all y Llywodraethwyr ei wneud i helpu a beth ellid ei wneud i gefnogi disgyblion nad ydynt yn cael cymorth gartref. Nodwyd bod angen annog Rhieni a Disgyblion i ddarllen llyfrau Cymraeg. Roedd y Pennaeth mewn cysylltiad â chwmni oedd yn darparu deunydd darllen Cymraeg.	
8	**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**		
	PENDERFYNWYD nodi y byddai cyfarfod nesaf y Corff Llywodraethu Llawn yn cael ei gynnal ar 10 Tachwedd 2022.		

PL
10:06:2022